**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**7/5/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts, (Cadeirydd) Alwyn Roberts (Is-Gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**3055 Sylwadau'r Cadeirydd** Wrth gamu i sedd y Cadeirydd, diolchodd Huw Pierce Roberts yn gynnes iawn i Euros Roberts am ei arweiniad cadarn trwy'r flwyddyn yn arbennig wrth lywio'r gymuned i greu Menter Gymunedol Llanuwchllyn a arweiniodd at brynu'r Eagles. Edrychodd ymlaen at gydweithio'n hapus gyda Swyddogion y Cyngor.

**3056 Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones

**3057 Datganiadau o fuddiant:** Dim

**3058 Cofnodion cyfarfod 2/4/24:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3059 Materion y Clerc**

i. <u>Y Cytundeb Glanhau</u> – derbyniwyd argymhelliad yr is-bwyllgor Cyllid i godi gwerth y Cytundeb yn unol a chwyddiant.
ii. <u>Y Gaiman:</u> Croesawyd y newyddion y byddai 3 myfyriwr o Batagonia yn ymweld a Llanuwchllyn ym mis Gorffennaf. Bydd llety iddynt yma, a gweithgareddau codi arian yw cynnal yn ystod eu harhosiad yng Nghymru. Awgrymwyd Beryl Hughes Griffiths , Arwel Jones, Y Clerc i gydlynu'r trefniadau, gan ofyn i Eleri Roberts am ei chymorth caredig. Cytunwyd i wneud cyfraniad o £200 tuag at yr achlysur hwn o'n trefniant Gefeillio efo'r Gaiman.
iii. <u>Awyr Dywyll:</u> Cydymdeimlwyd gyda Dani Jones yn dilyn ei damwain yn ddiweddar ac edrychir ymlaen at ei chroesawu i'r Cyngor ar ôl iddi wella.

**3060 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd a soniodd bod mater diogelwch wrth gyrraedd at Lwybr Cei wrth y bont wedi ei anfon i sylw Derek Morgan, Cyngor Gwynedd, gyda'r bwriad o agor bwlch yn y bont o Lwybr Tegid.

Bu'r Cynghorydd Alan Jones Evans mewn cysylltiad eto gyda Mabon ap Gwynfor a fydd yn pwyso ar y Gweinidog Ken Skates i ail- amseru Cynllun Tawelu'r A494, cynllun sydd ar i silff ers rai blynyddoedd.

Bydd ymweliad gan Swyddog Cynllunio Cyngor Gwynedd i ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r mynediad at faes parcio'r Eagles.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith.

**3061 Is-bwyllgorau**

1. <u>Pwyllgor Datblygu</u>: Bu sawl cyfarfod dros y we i geisio ffeindio'r ffordd ymlaen er mwyn sicrhau tai i bobl leol yn yr ardal, yn cynnwys cynrychiolydd cyfarfodydd gyda Menter Aelhearn a Katherine Robinson o Cwmpas. Yn y cyfarfodydd hyn trafodwyd yr Opsiynau sydd ar gael gan fod yma Grŵp Tai Sylfeini, Elusen Maurice Vaughan a Menter Gymunedol Llanuwchllyn. Roedd yn dda cael barn allanol ar fanteision ac anfanteision gwahanol modelau ar gyfer pwrcasu tai yn y pentref. Bydd angen cyflwyno hyn i'r mudiadau uchod er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau ymlaen.
2. <u>Mynwentydd</u>: Derbyniwyd adroddiad lafar gan Alwyn M Roberts o gyfarfod 7/5/24. Bydd Bethan Edwards yn trafod gyda'r Ymgymerwyr, ond yn y cyfamser bydd yr is-bwyllgor yn cofnodi'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn diogelwch. Mae dros gant o grybiau yno a nifer o gerrig ar lawr.
3. <u>Bioamrywiaeth</u>: Adroddodd Rhodri Prys Jones o gyfarfodydd gyda Elin Smith (Parc Cenedlaethol Eryri ) parthed y maes parcio a'r goedlan ochr bellaf i'r fynwent. Mae camera wedi ei osod yno am fis i gofnodi'r bywyd gwyllt. Mae cytundeb i blannu coed Yw yn y goedlan (neu yn y maes parcio), ac i blannu gwrych yn y maes parcio. Ceisir cynnwys plant ysgol yn y gweithgareddau hyn yn yr Hydref. Aseswyd diogelwch y coed pîn wrth y fynedfa. **Derbyniwyd** cynnig gan Parc Cenedlaethol Eryri i dorri'r ddwy am resymau diogelwch a phlannu coed llai eraill yn eu lle (ar gost y Parc).
4. <u>Nadolig:</u> prynwyd bagiau i gadw'r goeden Nadolig, a chytunwyd i dalu Heledd Jones am hyn.
5. <u>Asedau:</u> Lloches bws Ty'n Ddôl: disgwylir bydd y ffenest wedi ei thrwsio'n fuan iawn. Mae gwaith trwsio wedi ei wneud yn y Cyfleusterau Cyhoeddus. Cytunwyd i anfon at John Manzini i ddiolch am ei barodrwydd bob amser i ateb galwadau, ac at Elly Seward am safon uchel glanweithdra'r cyfleusterau. Mae'r tu allan wedi ei baentio.
6. <u>Cyllid:</u> Bydd yr is-bwyllgor yn y cyfarfod nesaf yn edrych ar fodel Cytundeb Cyflogaeth Clerc a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru.

**3062 Ystyried Materion Ariannol:** Diolchwyd am yr adroddiad o dderbyniadau ac anfonebau'r mis. Diolchwyd am y rhodd gan swyddogion Ras yr Aran o £100. Derbyniwyd hanner cyntaf y Praesept. Cytunwyd i'r taliadau a restrwyd (taliadau o dan Cytundeb).

**3063 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Mae'r Fenter yn canolbwyntio yn awr ar wella adeilad yr Eagles a lleihau'r ôl-troed carbon.

**3064 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Adroddodd Huw Antur fod *Y Cyfnod* wedi ail gychwyn fel peilot. Mae trafodaethau am drafnidiaeth cymunedol ar y gweill ac mae Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen gyda llunio prydles newydd i Gwmni Pum Plwy Penllyn parthed Canolfan Bro Tegid.

**3065 Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau

i. NP5/71/338A Adeiladu gweithdy / ystafell beiriannau ynghyd â gwaith allanol cysylltiedig Cae Llwyd Rhydymain – cytunwyd i holi am fwy o fanylion.
ii. NP5/53/576 Estyniad i drac Rheilffordd Llyn Tegid – Cymeradwywyd. Nodwyd pryderon lleol am drafnidiaeth ar ffordd gul Ty'n Ddôl a'r angen i'r caffi barhau ar agor yn Llanuwchllyn.

iii. NP5/71/L296B Diwygio Amod Rhif 2 (cynlluniau wedi eu cymeradwyo) o Ganiatâd Cynllunio NP5/71/L296A o ffenestr to edrychiad ffrynt i ffenestr dormer yn 1 Coed y Lôn, Llanuwchllyn. LL23 7ST – Dim sylw.

**3066 Gohebiaeth:**

i. **Un Llais Cymru** Derbyniwyd Bwletin Mai a gwybodaeth am Gyfarfod Blynyddol Ardal Meirionnydd.

Derbyniwyd gwybodaeth am Hyfforddiant 11/06/2024 6.30-8.00yh Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu - Modiwl 24

ii. **Cyngor Gwynedd** (hwylusydd): Cynllun Adfywio Ardal Y Bala a Phenllyn – derbyniwyd gwybodaeth a chytunodd Alan Jones Evans , Rhodri Prys Jones , Alwyn M Roberts a Huw Pierce Roberts i fynychu cyfarfod yn y Clwb Rygbi ar 20/5/24 am 6.30pm.

iii. **Cymdeithas yr Iaith**: Addysg Gymraeg i Bawb - Cyrraedd y Nod. Derbyniwyd er gwybodaeth ystadegau diddorol am y Gymraeg a anfonwyd at Senedd Cymru .

iv. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Gan nad yw'n bosib i Gyngor ymateb i Ymgynghoriad ar Erthygl 4, anogwyd yr aelodau i ymateb fel unigolion.

v. **Cyngor Nefyn:** Nodwyd derbyn cais am gefnogaeth oddi wrth Cyngor Nefyn ac ymateb Cyngor Gwynedd parthed cerbydau trydan yn y Cyngor.

vi. **Arolwg Iaith Prifysgol Bangor**: Eto anogir ateb fel unigolion.

**3067 Materion lleol y Cynghorwyr:**

i. **Heddlu:** Adroddodd y Cynghorydd Alan Jones Evans a Euros Roberts o gyfarfod gyda'r Heddlu. Roedd canmoliaeth uchel i blant a phobl ifanc yr ardal. Soniwyd am grantiau bach sydd ar gael gan yr heddlu. Byddai Cofnodion o'r cyfarfod yn ddefnyddiol.

**ii Triathlon :** Cafwyd cyfarfod defnyddiol gyda Chwmni Camu'r Copa'r a'r argraff a gafwyd oedd eu bod yn drefnus a phroffesiynol. Cynhelir y Triathlon eleni ar 2/9/24 ond mae'n debygol y bydd yn cael ei gynnal ar ddiwedd Mai neu ddechrau Mehefin y flwyddyn nesa. Bydd Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn yn stiwardio a bydd cystadleuaeth i ieuenctid lleol. Diolchwyd i Euros Roberts a Rhodri Prys Jones am gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod hwn.

**3068 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 4/6/24 yn y Neuadd Bentref am 7.30pm